Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Thegwch

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw rhoi gwybodaeth gytbwys i ategu'r broses o wneud penderfyniadau a hyrwyddo ffyrdd gwell o weithio'n unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a'r pedwar paramedr trafod am degwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor yn 2013).

Cwblhawyd gan: Deborah Weston **Rôl**: **Rheolwr y Gwasanaeth Addysg**

Pennaeth y Gwasanaeth: Sarah Morgan **Dyddiad: 05/02/2019**

Cadarnhaf fod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cytuno i gynnwys yr asesiad hwn

Ydw / Nac ydw

Pan gwblhewch yr Asesiad hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i
impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad y polisi / cynnig sy'n cael ei gynnig. Amlinellwch ddiben y polisi. Y diben yw ceisio penderfyniad terfynol ar y cynnig ad-drefnu ysgolion i "sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu generig â 10 lle i ddisgyblion rhwng 4 a 11 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion o fis Ebrill 2019 ymlaen"
2. Amlinellwch sut rydych chi wedi/sut byddwch chi'n cynnwys y rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Rhoddwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol i restr helaeth o randdeiliaid, gyda dau ddigwyddiad galw heibio wedi'u trefnu lle y gallai'r bobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ddysgu mwy o wybodaeth a rhannu eu barn. Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad yma yn yr ysgol. Aeth pum person i'r sesiwn galw heibio gyntaf. Roedd pedwar ohonynt yn rhieni i blant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Roedd y pumed person yn aelod o staff a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Aeth dau riant i'r ail sesiwn. Roedd un ohonynt wedi mynd i'r sesiwn galw heibio gyntaf hefyd. O ystyried bod y cynnig ar gyfer darpariaeth â 10 lle, mae'r ffaith yr aeth 5 rhiant gwahanol i'r sesiwn galw heibio yn cynrychioli cymhareb dda o ymgysylltiad rhanddeiliaid. Roedd y Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr, a hwyluswyd hyn trwy gyfarfod penodol rhwng Cyngor yr Ysgol a dau aelod o staff o'r Gwasanaeth Addysg a gynhaliwyd ddydd Mawrth 16 Hydref 2018 yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Aeth 12 o blant i'r cyfarfod. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, cyhoeddwyd hysbysiad statudol angenrheidiol ar gyfer y cyfnod o 28 diwrnod rhwng dydd Llun 7 Ionawr 2019 a dydd Llun 4 Chwefror 2019. Cyhoeddwyd y cynnig statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chafodd copïau eu harddangos ym mhob prif fynedfa Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Hefyd rhannwyd yr hysbysiad gyda'r holl randdeiliaid fel y nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, gan gynnwys disgyblion, staff a rhieni / gofalwyr Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Aeth yr ymgynghoriad trwy'r cam hysbysu statudol hwn heb wrthwynebiad.

3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ac ati. Nodwch yr holl dystiolaeth rydych yn ei hystyried yn berthnasol.

Mae'r Cod statudol yn nodi'r rhanddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw yn rhan o'r broses. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â chynigion blaenorol. Rhoddwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol i'r rhanddeiliaid isod, ynghyd â naill ai dolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor a fersiwn electronig o'r pecyn a anfonwyd dros e-bost, neu gopïau caled o ddeunyddiau'r ymgynghoriad:

- Athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Disgyblion yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion (hwyluswyd trwy'r Cyngor ysgol);
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol yng nghlwstwr Ysgol Gyfun Caerllion: Ysgol Gyfun Caerllion, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams ac Ysgol Gynradd Langstone;
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu'r ysgolion hynny yng Nghasnewydd sydd â Chanolfan Adnoddau Dysgu ar hyn o bryd:
  Ysgol Gynradd Alway, Ysgol Gynradd Crindau, Ysgol Gynradd Gaer, Ysgol Feithrin Kimberley, Ysgol Gynradd Llanmartin, Ysgol Gynradd Llys Malpas, Ysgol Gynradd Monnow, Ysgol Gynradd Pillgwenlli, Ysgol Gynradd Ringland, Ysgol Gynradd Tŷ-du, Ysgol Gynradd St Andrew, Ysgol John Frost ac Ysgol St Julian;
- Pob aelod etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Cynulliad (AC) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, cafodd Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ei lunio a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Hefyd cyhoeddwyd cynnig statudol ar wefan y Cyngor a chafodd copïau eu harddangos ym mhob prif fynedfa i Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Yn ogystal rhannwyd yr

hysbysiad gyda'r holl randdeiliaid uchod. Aeth yr ymgynghoriad trwy'r cam hysbysu statudol hwn heb wrthwynebiad.

4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch fwy o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. Yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r llall	
Oedran	☒	☐	☐	Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu newydd yn ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth addysg gynradd arbenigol ledled dinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 o flynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu o'r fath yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol, ond nid yn unig i'r rheiny sy'n byw yn y clwstwr hwn. Gall pobl ifanc o bob rhan o'r ddinas fanteisio arno i gael cymorth gydag anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel. Caiff pob aelod o staff sydd wedi'i gyflogi yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd a ddiogelir hon.
Anabledd	☒	☐	☐	Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu Canolfannau Adnoddau Dysgu i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn pob ysgol newydd gan fod hyn yn cefnogi agwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt o fewn amgylchedd prif ffrwd. Hefyd mae awydd creu sefyllfa lle bod o leiaf un Ganolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, neu yng nghlwstwr cyfagos St Julian. Bydd adeilad newydd yr ysgol yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaeth ar Sail Anabledd. Caiff pob aelod o staff sydd wedi'i gyflogi yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd a ddiogelir hon.
Ailbennu rhywedd/ trawsryweddol	☐	☐	☒	Caiff unrhyw ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a staff y mae'r nodwedd a ddiogelir hon yn berthnasol iddynt eu trin yn

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch fwy o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. Yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r llall	
				gyfartal yn unol â'r polisïau perthnasol a mabwysiadwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol. Caiff y polisïau mewn perthynas â'r GAD eu datblygu i gefnogi unrhyw ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a staff y mae'r nodwedd a ddiogelir hon yn berthnasol iddynt.
Priodas neu bartneriaeth sifil	☐	☐	☒	Caiff pob aelod o staff sydd wedi'i gyflogi yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd a ddiogelir hon.
Beichiogrwydd neu famolaeth	☐	☐	☒	Caiff pob aelod o staff sydd wedi'i gyflogi yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd a ddiogelir hon. Caiff y polisïau mewn perthynas â'r GAD eu datblygu i gefnogi unrhyw ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a staff y mae'r nodwedd a ddiogelir hon yn berthnasol iddynt.
Race	☒	☐	☐	Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu newydd yn ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth addysg gynradd arbenigol ledled dinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 o flynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu o'r fath yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Bydd y cynnig hwn o fudd i bobl ifanc sy'n byw'n lleol, ond nid yn unig i'r rheiny sy'n byw yn y clwstwr hwn. Gall disgyblion o bob rhan o'r ddinas fanteisio arno i gael cymorth gydag anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel. Caiff pob disgybl yn yr ysgol hon a phob aelod o staff sydd wedi'i gyflogi yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd a ddiogelir hon. Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod tebygrwydd uwch o anghenion dysgu ychwanegol yn effeithio ar ddisgyblion duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
Crefydd neu Gred neu Ddi-gred	☐	☒	☐	Mae Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion yn ysgol gynradd gymunedol. Fodd bynnag mae'r ysgol yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol. Caiff pob disgybl yn yr ysgol

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch fwy o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. Yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r llall	
				hon a phob aelod o staff sydd wedi'i gyflogi yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd a ddiogelir hon.
Rhyw/Hunaniaeth o ran Rhywedd	☐	☐	☒	Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu newydd yn ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth addysg gynradd arbenigol ledled dinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 o flynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu o'r fath yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol, ond nid yn unig i'r rheiny sy'n byw yn y clwstwr hwn. Gall disgyblion o bob rhan o'r ddinas fanteisio arno i gael cymorth gydag anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel. Caiff pob rhanddeiliad sy'n gysylltiedig â'r ysgol a phawb arall eu trin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd a ddiogelir hon. Yn ystadegol, mae tebygrwydd uwch o anghenion dysgu ychwanegol yn effeithio ar blant gwrywaidd nac ar blant benywaidd.
Cyfeiriadedd Rhywiol	☐	☐	☒	Caiff unrhyw randdeiliaid y mae'r nodwedd a ddiogelir hon yn berthnasol iddynt eu trin yn gyfartal yn unol â'r polisïau perthnasol a fabwysiadwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol.
Y Gymraeg	☐	☒	☐	Mae Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion yn ysgol Saesneg. Er ei bod yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol mewn perthynas â'r Gymraeg fel ail iaith, mae'n annhebygol o wneud cyfraniad ystyrlon i darged Iaith Gymraeg 5 Mlynedd Casnewydd o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas.

5 Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Cydbwyso angen tymor byr gydag anghenion tymor hir	***Ydy, trwy gefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol yn y sector ysgol gynradd a galluogi disgyblion i fynychu ysgol sy'n fwy lleol i'w cartrefi.***

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Cydweithio i gyflawni amcanion	***Trafodwyd y cynnig hwn yn fanwl gyda chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion cyn ei symud ymlaen. Rhoddwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol i'r rhanddeiliaid isod:*** • ***Athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;*** • ***Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;*** • ***Disgyblion yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion (trwy'r Cyngor ysgol);*** • ***Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol yng nghlwstwr Ysgol Gyfun Caerllion:*** ***Ysgol Gyfun Caerllion, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams ac Ysgol Gynradd Langstone;*** • ***Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu'r ysgolion hynny yng Nghasnewydd sydd â Chanolfan Adnoddau Dysgu ar hyn o bryd: Ysgol Gynradd Alway, Ysgol Gynradd Crindau, Ysgol Gynradd Gaer, Ysgol Feithrin Kimberley, Ysgol Gynradd Llanmartin, Ysgol Gynradd Llys Malpas, Ysgol Gynradd Monnow, Ysgol Gynradd Pillgwenlli, Ysgol Gynradd Ringland, Ysgol Gynradd Tŷ-du, Ysgol Gynradd St Andrew, Ysgol John Frost ac Ysgol St Julian;*** • ***Pob aelod etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;*** • ***Gweinidogion Cymru;*** • ***Aelodau Cynulliad (AC) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;*** • ***Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;*** • ***Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;*** • ***Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;*** • ***Archesgobaeth Gatholig;*** • ***Estyn;*** • ***Undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;*** • ***Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;*** • ***Heddlu Gwent;*** • ***Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;*** • ***Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan;*** • ***Iechyd Cyhoeddus Cymru;*** • ***Canolfan Serennu Casnewydd;*** • ***SNAP Cymru;*** • ***Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent;*** • ***Gwasanaethau Ataliol.*** ***Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, cafodd Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ei lunio a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Hefyd cyhoeddwyd cynnig statudol ar wefan y Cyngor a chafodd copïau eu harddangos ym mhob prif fynedfa i Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Yn ogystal rhannwyd yr hysbysiad gyda'r holl randdeiliaid uchod. Aeth yr ymgynghoriad trwy'r cam hysbysu statudol hwn heb wrthwynebiad.***

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn	***Trefnwyd dau ddigwyddiad galw heibio lle y gallai pobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ddysgu mwy o wybodaeth a rhannu eu barn. Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad yma yn yr ysgol. Aeth pum person i'r sesiwn galw heibio gyntaf. Roedd pedwar ohonynt yn rhieni i blant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Roedd y pumed person yn aelod o staff a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Aeth dau riant i'r ail sesiwn. Roedd un ohonynt wedi mynd i'r sesiwn galw heibio gyntaf hefyd. O ystyried bod y cynnig ar gyfer darpariaeth â 10 lle, mae'r ffaith yr aeth 5 rhiant gwahanol i'r sesiwn galw heibio yn cynrychioli cymhareb dda o ymgysylltiad rhanddeiliaid.*** ***Roedd y Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr, a hwyluswyd hyn trwy gyfarfod penodol rhwng y Cyngor Ysgol a dau aelod o staff o'r Gwasanaeth Addysg a gynhaliwyd ddydd Mawrth 16 Hydref 2018 yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Aeth 12 o blant i'r cyfarfod.*** ***Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, cyhoeddwyd hysbysiad statudol angenrheidiol ar gyfer y cyfnod o 28 diwrnod rhwng dydd Llun 7 Ionawr 2019 a dydd Llun 4 Chwefror 2019. Cyhoeddwyd y cynnig statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chafodd copïau eu harddangos ym mhob prif fynedfa Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Hefyd rhannwyd yr hysbysiad gyda'r holl randdeiliaid fel y nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, gan gynnwys disgyblion, staff a rhieni / gofalwyr Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Aeth yr ymgynghoriad trwy'r cam hysbysu statudol hwn heb wrthwynebiad.***
Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu	***Mae'r angen am ddarpariaeth addysg arbenigol wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 o flynyddoedd diwethaf ac ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu gynradd yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian.*** ***Mae gan y cynnig hwn y manteision canlynol:*** • ***Creu Canolfan Adnoddau Dysgu gynradd yng nghlwstwr Caerllion;*** • ***Mwy o leoedd i ddisgyblion y mae angen lleoliadau prif ffrwd arnynt;*** • ***Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion fanteisio ar ddarpariaeth a gefnogir i ailintegreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd;*** • ***Defnydd effeithiol o le yn adeilad newydd yr ysgol;*** • ***Defnydd gwell o adnoddau;*** • ***Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu;*** • ***Ymgysylltu'n well â rhieni a'r gymuned.*** ***Bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol, ond nid yn unig i'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Bydd y ddarpariaeth newydd ar gael i ddisgyblion sy'n byw ym mhob rhan o'r ddinas fanteisio arni er mwyn cael cymorth gydag anghenion dysgu ychwanegol mewn amgylchedd prif ffrwd priodol a diogel. Bydd hyn yn galluogi plant i fynychu ysgol sy'n fwy lleol i'r cartrefi.***
Ystyried effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrff eraill	***Mae ymgynghoriad statudol swyddogol wedi'i gynnal gyda rhanddeiliaid allweddol, a chaiff ei ganlyniad ei nodi yn yr adroddiad ymgynghori. Mae'r cynnig yn cefnogi'r Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru â chymunedau cydlynus" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".***

6 A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghyfartal ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu Canolfannau Adnoddau Dysgu ym mhob adeilad ysgol newydd gan fod hyn yn cefnogi agwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd mae awydd creu sefyllfa lle bod o leiaf un Ganolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, neu yng nghlwstwr cyfagos St Julian.

Felly bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol, ond nid yn unig i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Gall ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas fanteisio arno i gael cymorth gydag anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel.

7 Sut mae'r cynnig / polisi'n perthyn i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd

8

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ym mhob rhan o ddinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 o flynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu o'r fath yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Felly bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol, ond nid yn unig i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Gall ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas fanteisio arno i gael cymorth gydag anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel.

9 Gan ystyried yr holl asesiad, beth ellir ei wneud i leihau unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Roedd y cynnig yn destun ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid ac ystyriwyd unrhyw adborth wrth benderfynu ar sut i symud ymlaen. Roedd gan y rhanddeiliaid y cyfle i wneud gwrthwynebiadau cyfreithiol ar y cam hysbysu statudol ond ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

10 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Caiff effaith y cynnig ei gwerthuso ar ôl ei weithredu'n llawn. Mae'r Asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru ar bob cam o'r broses.

11 Cynnwys Pobl

Rhoddwyd rhaglen lawn o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar waith i gefnogi'r ymgynghoriad ffurfiol a oedd yn cynnwys sesiynau galw heibio lle y gallai pobl ddysgu mwy am y cynnig. Hefyd roedd cyfle i glywed llais disgyblion trwy'r cyngor ysgol. Roedd gan y rhanddeiliaid y cyfle i wneud gwrthwynebiadau swyddogol ar y cam hysbysu statudol; ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

12 Crynodeb o Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010 A'R Gymraeg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu Canolfannau Adnoddau Dysgu ym mhob adeilad ysgol newydd gan fod hyn yn cefnogi agwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae awydd hefyd i greu sefyllfa lle bod o leiaf un Ganolfan Adnoddau Dysgu ym mhob

clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, neu yng nghlwstwr cyfagos St Julian.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o addysgu disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol lle na ystyrir bod addysg brif ffrwd llawn amser yn briodol, mae gan yr Awdurdod Lleol nifer o Ganolfannau Adnoddau Dysgu ledled y Ddinas, mewn ysgolion unigol. Mae'r Canolfannau Adnoddau Dysgu hyn wedi'u hatodi i ysgolion prif ffrwd ac yn darparu amgylcheddau dysgu sydd â llai o ddisgyblion gyda mwy o oedolion. Mae'r Canolfannau Adnoddau Dysgu'n generig yn eu natur ac yn bodloni anghenion disgyblion sydd ag ystod o anawsterau. Yr ethos yw rhoi cymorth targedig i ddisgyblion unigol ar sail eu hanghenion gyda'r bwriad o integreiddio'r disgybl yn ôl i ddosbarthiadau prif ffrwd fel sy'n briodol. Mae galw parhaol am leoliadau mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu cynradd ledled Casnewydd.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ym mhob rhan o ddinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 o flynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu o'r fath yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Felly bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol, ond nid yn unig i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Gall ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas fanteisio arno i gael cymorth gydag anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel.

Mae Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion yn ysgol gymunedol Saesneg. Bydd yr ysgol yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob ffordd bosibl a bydd yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

I grynhoi, mae'r cynnig hwn yn cefnogi llesiant trwy gefnogi agwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu unigol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu Canolfan Adnoddau Dysgu ym mhob adeilad ysgol newydd. Hefyd mae awydd creu sefyllfa lle bod o leiaf un Ganolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, neu yng nghlwstwr cyfagos St Julian. Bydd sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu hon yn galluogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gael eu haddysgu mewn ysgolion sy'n fwy lleol i'w cartrefi.